


Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 186

Pris 80c

Mis Hydref 2016



Hydref 21ain 1966

Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Digwyddiadur: Lowri Jones

Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W. Williams

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Dysgu Cymraeg Gwent - Cyrsiau Atodol

Mae'r **Ysgolion Undydd** isod yn cael eu cynnal ar hyd a lled Gwent. Maent yn debyg i'r cyrsiau penwythnos ond yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn am 5 awr o ddysgu. **£10 yn unig.**

Lleoliad	Diwrnod	Amser	Dyddiad
Campws Nash Casnewydd	Sadwrn	09.15-15.45	08/10/16
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Sadwrn	09.15-15.45	22/10/16
LAC Glyn Ebwy	Sadwrn	09.15-15.45	12/11/16
Campws Dinas Casnewydd	Sadwrn	09.15-15.45	03/12/16
Campws Pont-y-pŵl	Sadwrn	09.15-15.45	14/01/17
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Sadwrn	09.15-15.45	04/02/17
Campws Brynbuga	Sadwrn	09.15-15.45	04/03/17
LAC Glyn Ebwy	Sadwrn	09.15-15.45	08/04/17
Campws Pont-y-pŵl	Sadwrn	09.15-15.45	13/05/17

Am fwy o fanylion am y cyrsiau hyn a chyrsiau eraill gwelwch ein llyfryn **Cyrsiau Atodol**.

Englynion Cyfarch Islwyn a Suzanne ar eu Priodas Aur
Englynion Cywaith Rownd Derfynol Ymryson y Beirdd
Eisteddfod Genedlaethol y Fenni, 5ed o Awst 2016

Dyna wag yw'n stondin ni - heb y rhain,
Heb wres eu cwmpeini,
Ond mae'r ddalen yn llenwi
Eto â'r wên sydd rhwng tri.

Y Deheubarth

Down yn Awst â'n cariad ni yn ein gŵyl
Dathlwn gwlwm ynddi
A thynnwn nerth ohoni
Trwy'r aur sy'n modrwyo tri.

Llyn ac Eifionydd

Down, bob un i'r aduniad, ac eilio,
yn ein gŵyl y cariad
aur yng ngeiriau Angharad -
"Diolch, diolch, Mam a Dad

Sir Gâr

Priodas Ddiemwnt



Yng nghapel Bethel, Bowls Terrace, Caerffili, y priodwyd Haydn a Margaret Griffiths ar 28ain o Orffennaf 1956 - ie, drigain mlynedd yn ôl. Mr Worman y gweinidog oedd yn gwasanaethu ond mynnodd y priodfab ddod â'i weinidog ei hun, Mr Jones, gydag e o Ystalyfera.

Cefnder Haydn, Geraint Thomas oedd gwas y priodfab a dwy gyfeilles i Margaret o Landybie oedd y morynion priodas.

Cawsant dri mab sydd, yn eu tro, wedi'u bendithio a phump o wyrion. Plant Hywel a Karen, wrth gwrs, yw Catrin ac Aled; mae Alun ac Angie yn rhieni i Leah a Rhodri a'r pedwar plentyn yn Gymry Cymraeg sydd yn byw yn lleol. Mae Huw, sydd yn optegydd, yn byw yn Hertfordshire gyda Trish a'u merch Rhiannon.

Yn ogystal â dathlu'r briodas roedd Aled yn 18 a Catrin yn 21 eleni. Hefyd, roedd Alun, Hywel, Karen ac Angie yn dathlu eu pen-blwydd yn hanner cant. A hyn i gyd yn yr un flwyddyn!

Yn wahanol iawn i'r arfer erbyn heddiw, yn festri'r capel y cynhaliwyd y neithior a dathlwyd y llwncestdunau gyda gwin y cymun!

Pwy sy'n Dwyn Ein Treftadaeth?

Peth eithaf modern yw datblygiad diwydiannol canol ein cwm ni. Yn ôl map Arolwg yr Ordnans 1900, ardal ffermydd, pentrefi bach gwasgaredig ac ambell i bwl neu chwarel fach oedd Gelligaer, Hengoed ac Ystrad Mynach. Dengys map Ordnans yr un ardal ym 1920 fod y pentrefi wedi tyfu'n aruthrol a chymunedau newydd wedi datblygu o gwmpas pwll glo newydd sbon – Pwll Penallta.

Suddwyd y pwll hwn rhwng 1905 a 1908, a dechreuwyd ei weithio ym 1909. Eiddo cwmni glo Powell Dyffryn ydoedd, a buddsoddodd y cwmni'n helaeth er sicrhau bod Penallta'n adlewyrchu'r dulliau diweddaraf o weithio glo. Yno er enghraifft, am y tro cyntaf, codwyd un adeilad anferth pwrpasol ar gyfer holl beiriannau trydan y pwll newydd. Daeth Neuadd Pŵer Penallta yn fodel ar gyfer pyllau glo diweddarach. Roedd maint yr adeilad, ei ffenestri uchel a'i deils lliwgar yn peri iddo edrych yn debyg i neuadd gyngerdd neu – oherwydd ei faint – eglwys gadeiriol urddasol.



Gan fod pencadlys cwmni Powell Dyffryn yn Nhredomen mor agos at Benallta, bwriad y cwmni oedd defnyddio'r pwll newydd fel enghraifft o'i safonau uchel a'i dechnoleg flaengar. Byddai uwch swyddogion Powell Dyffryn yn dod ag ymwelwyr pwysig i edmygu mawredd modern y seren hon ymhlith eu pyllau.

Os buddsoddodd y cwmni yn ei bwll newydd, fe elwodd y cyfranddalwyr ar y buddsoddiad hwnnw. Dros y blynyddoedd nesaf codwyd miliynau o dunelli o lo allan o'r pwll - yn agos at filiwn o dunelli'r flwyddyn. Dyma un o byllau mwyaf cynhyrchiol Ewrop gyfan am hanner canrif a rhagor.

Erbyn 1923 roedd 2,395 o ddynion yn gweithio ym Mhenallta, ac yn y 1930au roedd ganddo weithlu o dros 3,200. Erbyn 1936, roedd gan gwmni Powell Dyffryn ei hun dros 30,000 o lowyr, rhyw 60 o byllau, a gynhyrchai bron 40% o'r holl lo a weithid ym maes glo'r De – a phwll Penallta oedd seren y cwmni anferth hwn.



Er bod gan gwmni Powell Dyffryn enw drwg am safonau diogelwch a'i agwedd tuag at les ei weithwyr yn gyffredinol, parhaodd y cwmni i fuddsoddi yn y pwll, ac ym Mhenallta ym 1938 agorwyd baddonau newydd sbon ar gyfer y gweithlu. Mae'r adeilad hwn, a nifer o adeiladau eraill Penallta, wedi eu cofrestru'n Radd 2* gan y Comisiwn Henebion.

Fel y gwyddom, dirywiodd y diwydiant glo ym Mhrydain dros y 1960au a'r 1970au. Erbyn y 1970au dim ond 700 o ddynion oedd yn gweithio ym Mhenallta, ond oherwydd y moderneiddio cyson a fu yno erioed, llwyddasant i ennill dros 200,000 o dunelli o lo bob blwyddyn.

Ond nid oedd ymdrechion y gweithwyr nac adnoddau'r pwll yn ddigon i'w achub. Ar Dachwedd 1af, 1991, caeodd Penallta, pwll dwfn olaf ein cwm ni. Eleni, felly, fe fyddwn yn nodi chwarter canrif ers i'r caets olaf gyrraedd yr wyneb, ac i'r glowyr olaf adael y pwll i gyfeiliant band pres.

Ugain mlynedd yn ôl cyhoeddodd Cyngor Bwrdeisdref Caerffili gynllun arloesol i weddnewid safle'r pwll, gan greu parc natur ac adloniant awyr agored, codi stad o dai newydd o gwmpas yr adeiladau cofrestredig, a throi adeiladau cofrestredig Penallta yn anheddau o gymeriad.

Gwireddwyd sawl agwedd ar weledigaeth y Cyngor: heddiw mae cannoedd yn mwynhau cerdded, loncian a merlota ym Mharc Penallta; mae cymuned newydd yn tyfu yng Nghwm Calon – ac mae bodolaeth a llwyddiant Ysgol Gynradd Gymraeg newydd Penalltau ei hun yn destun balchder i bob un ohonon ni.



Ond beth am yr adeiladau cofrestredig eu hun? Mae dau wedi eu trawsnewid yn anheddau deniadol sy'n cyfuno'r hanesyddol a'r modern. Ond mae baddonau trawiadol y 1930au wedi eu cuddio gan goediach, mieri a chwyn; mae'r olwynion weindio anferth yn rhydu yn eu fframau – a thristwch arbennig yw golwg y Neuadd Bŵer a fu unwaith yn destun balchder bro.

Ar wal y Neuadd Fawr mae rhywun wedi apelio 'Peidiwch â dwyn ein treftadaeth!'



Ond pwy yw'r lladron, a phwy sy'n amddiffyn ein treftadaeth rhagddynt? Byddaf yn trafod hanes pwll Penallta yng nghyfarfod cyntaf Hanes Cwm Ni ar Hydref 6ed, ac yn ceisio ateb y cwestiynau hyn ar yr un pryd. Yn addas iawn, byddwn yn cwrdd yng Nghlwb Rygbi Penallta, gyda llaw!

Dr Elin Jones

Clwb Cerdd Cwm Rhymni – Rhaglen 2016-17

19 Hydref 2016 - *Fusion Percussion* – Eglwys Fethodistaidd Lewis St - 7.15 yh
Bydd Dave Danford a *Fusion Percussion* yn defnyddio cyfoeth o offerynnau.

26 Tachwedd 2016 - *Willshire Duo* - Ysgol Lewis i Ferched - 2.30 yp
Bydd James a Pippa Willshire yn perfformio deuawdau piano

21 Ionawr 2017 - *Still Life with Guitâr* – Canolfan Gristnogol Siloh - 2.30 yp
Bydd Phillip Heyman, Fiola, a Michael McCartney ar y gitâr..

18 Chwefror 2017 – *Deuawd Ffidil a Piano* – Ysgol Lewis i Ferched- 2.30 yp
Bydd Christopher Horner, i gyfeiliant Emyr Roberts, yn chwarae darnau yn ymestyn o Schubert i Prokofiev ac yn ymweld â Brahms a Rodrigo ar y ffordd!

11 Mawrth 2017 – *Deuawd Cello a Piano* - Ysgol Lewis i Ferched - 2.30 yp
Ella Rundle a Miho Kawashima - Stravinsky, Schubert a Rachmaninov.

01 Ebrill 2017 – *Cerddoriaeth i Chi* – Canolfan Gristnogol Siloh - 7.15 yh
Bydd Andrew Jones a phedwar cyfaill yn chwarae cyfuniad o offerynnau pres, yn cynnwys darnau gan Mervyn Burtch a chyfansoddwyr eraill o Gymru.

13 Mai 2017 - *Acacia* – Telyn a Ffliwt - Canolfan Gristnogol Siloh - 2.30 yp
Mae Heather Wrighton a Samantha Pearce yn cynnig rhaglen eangfrydig sydd yn cynnwys darnau clasurol, opera, ac ychydig o gerddoriaeth werin/Lladin.

Siop Lyfrau Cymraeg Newydd i Gaerffili!!

Agorwyd siop Lyfrau'r Enfys yng Nghaerffili fore Sadwrn y 24ain o Fedi. Y canwr a'r actor Huw Euron agorodd siop Llyfrau'r Enfys y tu mewn i farchnad dan do'r dref. Diwrnod oedd hwn a welodd ddathlu canfed pen-blwydd Roald Dahl drwy gynnal parti i'w anrhydeddu.



Vikki Alexander sydd yn sefydlu'r fenter newydd hon ac mae ganddi nifer o syniadau cyffrous ar y gweill. Lle digon digalon yw'r farchnad dan do ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau gan y perchnogion i harddu'r safle.

A bydd Vikki hithau'n chwarae ei rhan wrth godi proffil yr adeiladau. Oherwydd yn ogystal ag agor y siop mae'n fwriad ganddi i ddatblygu gardd feddal artiffisial y tu allan i'r siop lle bydd plant yn gallu chwarae wrth fwynhau gweithgareddau Cymraeg.

O fewn y siop fe fydd llyfrau Cymraeg, wrth gwrs, a rheiny yn darparu ar gyfer plant ac oedolion. Ac mae stoc o gardiau Cymraeg a chylchgronau yno. Yna, mae yna lyfrau o ddiddordeb lleol yn y ddwy iaith yn ogystal â llyfrau Saesneg. Gellir prynu fersiynau mwy diweddar o lyfrau Roald Dahl, llyfrau a gynhyrchwyd ar gyfer dathlu ei ganmlwyddiant.

Mae Vikki ei hunan yn ddigon adnabyddus yn yr ardal. Yn gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni mae bellach yn byw yn Llanbradach. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod yn weithgar ym myd addysg Gymraeg drwy ei hymdrechion gyda Chylchoedd Meithrin a grwpiau Ti a Fi. Hefyd, gweithiodd yn adran Dysgu Cymraeg i Oedolion gyda Choleg Gwent yn ogystal â gweithio gyda phlant Anghenion Ychwanegol yn ein hysgolion. Cyn esgor ar y fenter hon bu Vikki'n gweithio i gwmni cyhoeddi Rily, cwmni sydd wedi bod wrthi'n nodd cyfieithu llyfrau i'r Gymraeg ac yna eu cyhoeddi.


Efallai y bydd dosbarthiadau Tai Chi yno yn ystod y bore ac mae cynlluniau ar gyfer cynnal arddangosfa cerameg. Y gobaith yw y bydd grwpiau a chymdeithasau yn cyfarfod yno hefyd. Bydd Vikki yn mentro ar gynnig sesiynau blasu Cymraeg i'r Teulu yn ogystal â Chymraeg i Oedolion. Mae sôn hefyd am glybiau wedi'r ysgol. Ac, er nad oes cyfleusterau gwerthu te a choffi, bydd modd torri syched yno gan fod Vikki yn cydweithio'n agos â chaffi "Pinky" drws nesa.

Dymunwn pob hwyl i'r fenter a gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar ei safle We vikkimarsh@sky.com. Bydd y siop ar agor rhwng 9.30 a 5.00 pob dydd. Mae'n haeddu llwyddo ond wnaiff y llwyddiant ond dod os byddwn ni fel Cymry yn mynd yno i gefnogi.



Dathlu'r Degfed !!

Ddeng mlynedd yn ôl galwodd y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans gyfarfod yn festri Capel Bethel, Caerffili, i drafod y syniad o gynnal eisteddfod yn y cylch.



DYDDIAD NEWYDD
NOS WENER 4.11.16

LLEOLIAD NEWYDD
CAMPWS Y GWYNDY
CAERFFILI

CYSTADLAETHAU
A GWOBRAU NEWYDD
LLEISOL | DAWNSIO
LLEFARU | OFFERYNNOL
FFOTOGRAFFIAETH
LLENYDDOL

NOSON GYMDEITHASOL
GYDA BAR



www.eisteddfodycymoedd.cymru

Pwrpas eisteddfod o'r fath oedd sefydlu gŵyl yn yr ardal a fyddai'n rhan o rwydwaith o eisteddfodau lleol, y math sy'n sylfaen i'n Gŵyl Genedlaethol. Dan gadeiryddiaeth Alun ymgwymerodd nifer â'r dasg o fod yn ysgrifennydd gan gynnwys Siân Parry Griffiths a Linda Charnell-White cyn i Gwilym ac Eirlys Thomas ddod yn eu lle. Eirian Thomas oedd y Trysorydd cyntaf a Mair Gwynant sydd bellach yn gofalu am yr arian.

Luned Jones a Rhian Jones yw'r Ysgrifenyddion dan Gadeiryddiaeth Aled John gyda Alan Gwynant yn Is Gadeirydd. A braf yw gweld cymaint o wynebau ifanc a newydd yn aelodau o'r pwyllgor a/ neu'n cynnig eu cefnogaeth.

Penderfynwyd cynnal yr Ŵyl yn neuadd Ysgol Lewis i Ferched ar nos Wener olaf ond un tymor yr Hydref gan ddechrau am bump o'r gloch. Aeth nifer o'r eisteddfodau cynnar ymlaen tan wedi deg o'r gloch y nos diolch i gefnogaeth nifer o gorau. Ond ar nos Wener gyntaf mis Tachwedd

y bydd yr eisteddfod bellach a'i chynnal yn safle'r Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Ein cefnogwyr mwyaf selog, ar hyd y blynyddoedd fu ein hysgolion cynradd, yn enwedig yr Ysgolion Cymraeg. Ond eleni disgwyliwn fwy o gorau gan sicrhau y bydd ail ran yr Ŵyl yn gryfach. Ac mae nifer o ysgolion cyfun hefyd wedi mynegi diddordeb.

Ond "bugeiliaid newydd sydd" a dymunwn yn dda i'r criw sydd am dywys yr eisteddfod ymlaen drwy'r ddegawd nesaf – a thu hwnt! Mae gwefan newydd i Eisteddfod y Cymoedd yn fyw: www.eisteddfodycymoedd.cymru Ewch ato i edrych ar y gwahanol gystadlaethau sydd ar gael. Y cyfeiriad ebost yw, eisteddfodycymoedd@gmail.com

Mae nifer o wobrau hael ar gael eleni i ddathlu 10fed penblwydd yr Eisteddfod. Dewch i Gaerffili i gystadlu ac i gefnogi ar Dachwedd y 4ydd. (Fe fydd bar yno! Shhhhhh!!!)

Annwyl Gyfeillion,

Eleni bydd Diwrnod Shwmae Sumae yn digwydd am y pedwerydd tro ar Hydref 15fed. Cofiwch achub ar y cyfle i ddathlu'r iaith Gymraeg, yn eich ysgol, coleg, gweithle, ysbyty, caffi, bar neu siop leol.

Dechreuodd Diwrnod Shwmae Sumae 4 blynedd yn ôl gyda dros 100 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ac wedi eu hysbrydoli gan ymgyrchoedd tebyg i hybu ieithoedd brodorol Gwlad y Basg a Llydaw.



Heddiw mae'r achlysur wedi ei gofleidio gan bobl ymhob rhan o Gymru, yn ddysgwyr, y di-Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Erbyn hyn mae cannoedd o ddigwyddiadau ac achlysuron yn cael eu cynnal o Fôn i Fynwy ar Hydref 15fed neu yn ystod yr wythnos honno. Mae nifer o sefydliadau ac ysgolion yn cynnal digwyddiadau o gwmpas y Diwrnod er mwyn hyrwyddo yr iaith, annog eraill i'w defnyddio

ac fel ffordd o bontio rhwng cymunedau Cymraeg a di-Gymraeg.

Mae mudiadau sy'n aelodau o Dathlu'r Gymraeg yn annog pawb i gymryd rhan yn y dathliadau eleni, ac os oes angen cyngor ar beth i'w wneud arnoch chi cysylltwch ag un o'r isod, maent yn siwr o'ch rhoi ar ben y ffordd:

CAER, Cronfa Glyndwr, Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru, CYDAG, Cyfeillion y Ddaear, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymdeithas Alawon Gwerin, Cymdeithas Bob Owen, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru, Mudiad Meithrin, RhAG, UAC, UCAC, UMCA, UMCB, Urdd Gobaith Cymru

Cewch manylion a syniadau ar www.shwmae.org

Dilynwch ni ar Twitter @shwmaesumae ac ar Facebook:



Diwrnod Shwmae Sumae 2016



15 Hydref - October 15

Posau'r Plant gan Mary Jones

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



CHWILAIR

Mae 13 gair o fewn y sgwâr. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

afalau calan gaeaf

gwrach sgerbwd

pwmpen hydref

bwgan ysbrydion

penglog nos

Mae'r atebion ar gyfer y ddau bôs i'w gweld ar waelod Colofn y Dysgwyr.

Oedfaon Capeli Cymraeg Caerffili ar gyfer mis Hydref

Tonyfelin

Hydref 2ail	10.30 a 6.00	Y Parch. Milton Jenkins
Hydref 9fed	10.30 a 6.00	Dr J Gwynfor Jones
Hydref 16eg	10.30 a 6.00	Bethel
Hydref 23ain	10.30 Oedfa deulu 6.00	Y Parch. Milton Jenkins
Hydref 30ain	10.30 a 6.00	Y Parch. Gethin Rhys

Bethel

Hydref 2ail	10.30. Parch. Glyn Tudwal Jones
Hydref 9fed.	10.30 a 6 y.h. Parch. Maldwyn Jones
Hydref 16eg	.10.30 a 6 y.h. Parch. Ddr. R Alun Evans
Hydref 23ain	10.30 Phil Ellis
Hydref 30ain	10.30.Parchg. Milton Jenkins

BANGLA CYMRU

Bangladesh, yn ôl ystadegau'r Cenhedloedd Unedig yw gwlad dlotaf Asia. Mae lefelau anllythrennedd, ofergoeliaeth, diffyg maeth, glanweithdra, gofal meddygol ac addysg yn anghyffredin o uchel. Mae cyflwr cymaint o'r tai a'r amgylchedd yn hunllefus o wael. Gwelir plant bach tua chwech oed yn gweithio'n ddyddiol, rhai ohonynt yn ddigartref ac yn cysgu ar y strydoedd. Golygfa gyffredin yw plant a phobl anabl ar y stryd yn cardota; rhai gyda'r anhwylderau a'r anffurfiadau corfforol mwyaf dychrynlyd. Nid oes gan Bangladesh wladwriaeth les i roi cynhaliaeth i'r anffodusion hyn, felly'r unig ffordd i ennill *taka* neu ddwy yw gorwedd ar y stryd, neu gan amlaf cael eu gollwng ar y stryd gan obeithio y bydd rhywun yn dangos ychydig o dosturi a chynnig *taka* neu ddwy. Golygfa gyffredin arall yw teuluoedd o blant bach yn crwydro'r dinasoedd, rhai ohonynt yn frodyr a chwiorydd dan dair oed a neb yn gofalu amdanynt, a hynny oherwydd bod y fam yn gweithio yn y ffatrioedd gwneud dillad ar gyfer ein siopau ni yn y gorllewin. Gwelais lawer ohonynt hefyd yn crafu byw ar domennydd ysbwriel, neu'n torri cerrig a dim sôn am nag ysgol na maes chware nag unrhyw degan i'w diddanu.



Ond, nid yw tlodi bob amser yn gyfystyr â thristwch. Mae gwên barod ar wynebau cymaint o'r plant tlysiion hyn, yn barod bob amser i sgwrsio ac i ryfeddu at hen ddyn croenwyn a chasglu'n heidiau i'm dilyn o

stryd i stryd! Mae yna ryw bwrpas hanfodol i bob prysurdeb yno; mae yna ddyfeisgarwch fyddai'n rhyfeddu llawer ohonom sy'n byw yng nghanol y dechnoleg ddiweddaraf, a churiad cyffrous i'r holl weithgarwch di-baid a welir o awr i awr. Mae pob dinas a phentref yn ferw o ddiwydrwydd, yn gyforiog o liw ac arogleuon peraroglus a chyfoglyd.



Cefais brofiadau bythgofiadwy gyda Dr Jishu, cydlynnydd meddygol BanglaCymru mewn ysbytai yn gweld gwaith ar losgiadau a gwefus a thaflod hollt dros yr wyth mlynedd diwethaf ers sefydlu BanglaCymru. Mae llosgiadau yn beth cyffredin iawn ym Bangladesh. Oherwydd diffyg cyflenwad trydan mae cymaint o'r boblogaeth yn gorfod dibynnu ar gynnu tân i goginio, fflam i gadw'r mosgito draw a lampau olew ar gyfer goleuni. Rhai o'r problemau mwyaf yw plant bach yn syrthio i'r tanau, saris o ddefnydd synthetig sy'n cael eu gwisgo gan y merched yn mynd ar dân yn ddirybudd a dynion yn ceisio tapio i mewn i wifren drydan heb sylweddoli'r perygl.

Mae'r cyflwr gwefus a thaflod hollt yn beth cyffredin yn y rhan yma o'r byd. Amcangyfrifir bod tua 5,000 o blant yn cael eu geni gyda'r cyflwr yn flynyddol ym

Mangladesh, ac oherwydd diffyg adnoddau dim ond tua'u hanner sy'n cael eu trin. Mae cymaint o ofergoeliaeth ynghlwm â'r cyflwr ac un ohonynt yw'r hen gred bod y diafol wedi meddiannu'r plant anffodus hyn.

Maent yn aml yn cael eu hamddifadu o gariad, o gyfeillgarwch plant eraill ac yn tyfu i gael eu hanwybyddu a'u sbeitio.

Clywais gymaint o storïau am famau'n rhedeg i ffwrdd ar ôl rhoi genedigaeth i blentyn â'r cyflwr, neu'r tad yn cefnu ar y teulu a beio'r fam gan adael y teulu heb enillion ariannol. Ond, wrth reswm, mae llawer ohonynt yn cael eu caru a'u magu'n annwyl gan eu teuluoedd, ond yn tyfu'n dioddef yn emosiynol oherwydd eu pryd a'u gwedd, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Dros y blynyddoedd profais gannoedd o weithiau'r wyrth o newid bywydau'r anffodusion hyn yn dilyn triniaethau hynod o lwyddiannus a berfformid gan rai o'r meddygon y deuthum i'w hadnabod yn ystod fy ymweliadau blynyddol. Rwy'n cael fy ysgogi a'm hysbrydoli bob tro.

Priod waith BanglaCymru yw trefnu sesiynau llawdriniaethau mewn gwahanol drefi a dinasoedd ym Mangladesh. Cawn amcangyfrif o faint sydd angen triniaeth mewn ardal drwy holi'r ysbyty lleol, rhoi posteri darluniadol o gwmpas yr ardal a hysbysebion yn y papurau newydd. Llogwn wedyn theatr lawdriniaethau am ddyddiau penodedig yn ôl y nifer a gofrestrir, ac eir ati am tua deunaw awr y dydd i sicrhau fod yr holl ddioddefwyr ddaw i'n gweld yn cael eu trin.

Dair blynedd yn ôl penderfynais ddechrau cyflogi dau feddyg llawn amser, un feddyges ran amser, nyrs, ymwelydd iechyd a gofalwr i gynnal dwy ganolfan feddygol, nid yn unig i drin y rhai oedd â'r cyflwr hollt neu wedi dioddef llosgiadau ond i weld cleifion cyffredinol. Mae'r profiadau hyn yn y feddygfa gyda Dr Jishu (cyfieithiad: 'Iesu') yn brofiadau ingol a hefyd yn rhai o lawenydd.

Daw cleifion atom, y rhan fwyaf ohonynt yn dioddef o ddiffyg maeth neu anhwylderau oherwydd diffyg glanweithdra a rhai oherwydd eu bod wedi diffygio'n llwyr yn eu

gwaith. Doedd rhai ddim yn gallu fforddio'r ychydig geiniogau oedd rhaid eu talu i ymweld â meddygfeydd eraill ond erbyn hyn cânt ddod i weld meddygon BanglaCymru heb orfod talu. Un fenter dros y blynyddoedd sydd wedi achub bywydau yw mynd â'r feddygfa i'r slymiau lleol. Mae gwaith ein hymwelydd iechyd sydd wedi'i noddi gan Soroptomists Pontypridd yn allweddol wrth drefnu'r rhain - weithiau yn un o'r tai, mewn canolfan neu allan yn yr awyr agored. Mae hyn yn digwydd erbyn hyn yn ardal y ddwy ganolfan feddygol sydd gennym yn ardal Chittagong, De Bangladesh

Mae'r elusen wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a hefyd yr Adran Dreth er mwyn hawlio Rhodd Cymorth. Mae 99% o'r holl gyfraniadau, boed yn unigol neu gyfamodi drwy lenwi ffurflen a welir ar, <http://www.banglacymru.org.uk>. yn mynd yn uniongyrchol at yr achos, ac nid ar weinyddu ac ati.

Ni allaf ddiolch digon i'm cyd-Gymry sydd wedi bod mor gefnogol a charedig ers 2008 ac sydd bellach wedi cyfrannu'n hael i newid 1,120 o fywydau, nid yn unig yn weledol ond hefyd yn emosiynol a hyd yn oed yn ariannol fel canlyniad i lawdriniaethau o'r safon uchaf. Yn sicr gwêl lawer ym Mangladesh y Cymry fel pobl hael a charedig; hir y parhaed hyn.

Wil Morus Jones



Y Gwyll yn dychwelyd, a chyfrinachau'n dod i'r golwg!

Bydd y gyfres ddrama Y Gwyll yn dychwelyd i sgrin S4C nos Sul, 30 Hydref; ac yn y gyfres hon mae'r ditectif enigmatig Mathias hefyd yn canfod ei hun o dan chwyddwydr yr heddlu.



Roedd diwedd glo cyfres ddiwethaf Y Gwyll yn danllyd, wrth i ni weld carafán Mathias yn llosgi i'r llawr. Fe oroesodd DCI Tom Mathias yr ymosodiad, ond mae canlyniad y llosgi bwriadol yn achosi dirgryniadau hirdymor i sawl cymeriad yn y gyfres newydd sbon, yn cynnwys Mathias ei hun.

Mae'r actor adnabyddus Richard Harrington, sy'n gyn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, yn edrych ymlaen at ymateb y gwylwyr i'r drydedd gyfres.

Mae'r actor, sy'n chwarae Mathias, yn dweud y bydd sawl un o gyfrinachau'r cymeriadau nawr yn dod i'r wyneb.

Yn ystod y gyfres hon hefyd caiff sawl dirgelwch arall ei ddatgelu a chawn wybod mwy am y cartre' plant ym Mhontarfynach.

"Fe losgodd carafán Mathias yn ystod y gyfres ddiwetha', ac rydym ni yn canfod pwy oedd yn gyfrifol..... Ond dw i ddim am sbwylio dim!" meddai Richard sydd o Ddowlais ger Merthyr yn wreiddiol.

"Mae e'n byw mewn gwesty ar hyn o bryd, dw i'n meddwl ei fod e'n joio'r ffaith ei fod e'n byw yn rhywle gwahanol. Y broblem am fyw mewn carafán yng nghanol y wlad yw does dim llawer o bobl yn pasio ac mae e'n gallu cuddio. Nawr mae fe'n cael y profiad o gwrdd â phobl newydd, ac rydyn ni'n gweld ochr arall ohono fe."

Yn ystod y gyfres ddiwethaf daethom i wybod mwy am gefndir y ditectif preifat, ac mae Richard, yn dweud ei fod e'n anghytuno â'i gymeriad yn aml iawn.

"Mae'r gynulleidfa'n gwybod lot mwy amdano fe nawr nag oedden nhw yn y gyfres gyntaf, a dw i'n teimlo'n eitha' rhydd yn chwarae'r cymeriad," meddai Richard sy'n 41 oed a bellach yn byw yng Nghaerdydd.

"Dw i yn cydymdeimlo gydag e, ond dw i'n flin gydag e hefyd! Dw i'n teimlo y dylai e fynd i wneud yn iawn gyda'i ferch ei hun. Dyna'r unig broblem sydd 'da fi gydag e, fi moyn iddo fe fod yn dad eto."

Mae Richard yn dweud bod 'na deimlad gwahanol i'r gyfres ddiweddaraf.

"Mae e'n wahanol, oherwydd rydyn ni'n ffeindio mas lot mwy amdany'n nhw fel cymeriadau yn y drydedd gyfres. Bydd y gwylwyr yn gweld lot o bethau cyn y cymeriadau, byddan nhw un cam ar y blaen, sy'n gwneud Y Gwyll yn wahanol nawr. Dw i'n hoffi ble mae'r sgriptwyr wedi mynd ag e."

Ond pam fod Mathias o dan y chwyddwydr? Gwyliwch Y Gwyll nos Sul, 30 Hydref ar S4C.

Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Helo bawb. Oeddech chi'n hoffi cerdd y rhifyn diwethaf tybed? Y tro yma dyma gerdd sy'n edrych yn syml, cerdd am ysgrifennu enw mewn sement meddal, ond mae'r bardd yn meddwl am anfarwoldeb hefyd.

LINDA WAZ 'ERE gan Aled Lewis Evans

Linda

'rwy'n dy gyfarch rŵan
er nad ydw i yn dy nabod di.

Yma ar wal y Prom
yn y Rhyl
y syllaf ar d'ymgais
at anfarwoldeb graffiti.

Ryw ddydd pan oedd y sement
yn feddal
a thithau awydd gadael d'ôl
ar yr hen fyd 'ma,
rhoist dy fys
i fandaleiddio'r sement cynnes
'Linda waz ere', a dyna sut yr ydw i'n dy nabod di
i'th gyfarch.

Roeddwn am i ti wybod
ein bod ni i gyd y run fath
yn yr hen fyd 'ma
– eisiau gadael rhyw argraff
ar ein marwoldeb.


Pam mae pobl yn ysgrifennu eu henwau mewn graffiti ar wal neu mewn sement gwlyb fel yn y gerdd yma? Mae'r bardd yn meddwl bod pawb eisiau bod yn enwog, yn celeb ac felly yn anfarwol.

marwoldeb / anfarwoldeb : mortality / immortality
awydd : desire
y run fath : just the same

cyfarch : greet
ymgais : attempt
yr hen fyd 'ma : this old world
anfarwol : immortal



Atebion Posau'r Plant



Diwrnod yn y gwaith @ Canolfan Siloh



8.00 y bore – cyrraedd Ystrad Mynach ar ddiwrnod braf o haf, ond mae'r heulwen wedi denu'r morgrug i'r gegin! Bwrw ati i'w clirio a cheisio darganfod o ble mae eu llwybr yn cychwyn, ond heb lwyddiant. Cymryd saib i ddarllen adnod y dydd yn nyddiadur defosiynol y Ganolfan– 'Un Dydd ar y Tro' –

'Yn awr, chwi yw Corff Crist, ac y mae i bob un ohonoch ei le fel aelod'(1 Corinthiaid 12:27).

Rhyfeddu at gymuned cydweithredol y morgrug

bach, a dyheu trwy weddi am i fyrddiynau enwadau Cristnogol y byd ddangos yr un fath o fentergarwch, a chydweithredu'n well yn enw Crist!

8.45 – rhywun yn ffonio eisiau'r feddygfa sydd drws nesaf ond un – digwyddiad eitha cyffredin – minnau'n rhoi'r rhif cywir iddynt

9 – 10 : ebyst, llythyrau, a gwneud yn siwr bod digon o dywelion papur a phapur tŷ bach yn y stafelloedd ymolchi; yn falch i weld bod y morgrug wedi rhoi'r gorau i'w cyrch yn y gegin.

10 – 11: croesawu Bethan a Morgan o'r Fenter, a Tom sy'n rhedeg y Gweithdy Minecraft a Lego yn Siloh heddi, un o'r gweithgareddau hanner tymor i blant cynradd. Neis gweld un o'm cyd-aelodau o Grŵp Iwcs y Cwm sydd wedi dod yn ei rôl fel mamgu i ddau o blant sy'n cymryd rhan yn y gweithdy.

11 – 1pm: gwneud gymnasteg mathemategol wrth roi trefn ar sieciau rhent, gwariant 'petty cash', a mantolen fisol y Ganolfan; cael gafael ar gysylltiad â'r we, glud a siswrn i arweinwyr y Gweithdy

Amser cinio – sgwrs arall gyda Mo o Iwcs, hithau'n cael cipolwg ar Yr Ystafell Fach, lle mae gwaith gweinyddol y Ganolfan yn digwydd, ac yn hoff iawn o'r awyrgylch "disglair, llawn golau" sydd ynddi. Minnau'n disgrifio hanes yr ystafell – y man lle cynhaliwyd astudiaethau Beibl a gweddi am flynyddoedd yn hanes y capel. Neis clywed bod Mo yn nabod Dr Elin Jones – mae plac ar y wal yn yr ystafell weddi yn nodi cyfraniad ei theulu at waith Siloh o 1913 ymlaen.



2 – 4 y prawn: tynnu lluniau o wenynen fêl yn casglu neithdar o'r pabis Cymreig yng ngardd flaen Siloh, a'u rhoi ar ein Gweplyfr; cynhyrchu anfonebau misol i'r defnyddwyr wythnosol; ymateb i ymholiadau ar y ffôn a thrwy ebyst am hurio'r Ganolfan hyd at Ebrill 2017! Ffarwelio a mynychwyr y Gweithdy.

4 – 5 y prawn: paratoi crefft peintio bysedd ar gyfer sesiwn 'Ti a Fi' wythnos nesaf; cofio mynd â'r bin sbwriel mas i'r lori sbwriel. Gwneud yn siwr fod y neuadd, y tai bach a'r gegin yn barod ar gyfer *Slimming World* bore fory, a diolch i'r Arglwydd am ddiwrnod arall llawn amrywiaeth a Chymreictod yn gwasanaethu'r gymuned leol.

Tamsin Llwyd Graves

Ceri Lisak yw awdur y stori hon yn y gyfres gan ddysgwyr hyfedredd uwch

SYR KYFFIN WILLIAMS


Cafodd Kyffin Williams ei eni ar y 9fed o Fai, 1918 yn Llangefni, Ynys Môn. Mae e'n enwog am olygfeydd cylllell paled Cymreig. Mae darluniau Kyffin yn dangos golygfeydd gogledd Cymru a'r bobl oedd yn byw yno – ffermwyr, cŵn, ffermdai bach gyda waliau gwyn a thywydd diflas.

Gwerthwyd un o ddarluniau Kyffin o'r enw '*A Hill Farmer and His Dog*' am £48,000 ym mis Medi, 2006.

Roedd mam Kyffin yn siarad Cymraeg ond doedd e ddim yn gallu. Teimlai Kyffin yn flin fod e'n methu â siarad Cymraeg.

Aeth Kyffin i'r fyddin ym 1937 – 6th Battalion Royal Welsh Fusiliers, ond oherwydd salwch roedd rhaid iddo adael. Roedd gan Kyffin epilepsi felly dywedodd y doctor y byddai'n syniad da iddo ddechrau peintio.

Ar ôl y rhyfel cafodd Kyffin swydd yn Ysgol Highgate fel uwch feistr celf, ac arhosodd yno am 30 mlynedd nes iddo ymddeol pan oedd yn 55 mlwydd oed.



Ym 1968 enillodd Kyffin '*Winston Churchill's Fellowship*' i astudio a pheintio'r gwladfeydd Cymreig ym Mhatagonia ac arhosodd yno am 6 mis. Peintiodd Kyffin y bobl hynny a adawodd Cymru 160 o flynyddoedd yn ôl ac ymgartrefodd yn Nyffryn sych Chubut a godreion yr Andes.

Roedd y darluniau ddaeth Kyffin â nhw yn ôl i Gymru yn wahanol iawn i'w waith cynnar yn ei ddefnydd o liwiau llachar oedd yn dangos yr ardal sych a'r *gaucho*. Cafodd y mwyafrif o luniau Patagonia Kyffin eu rhoi i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac a ddangoswyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1971.

Comisiynwyd Kyffin i beintio pobl Gymreig o bwys fel Syr Thomas Parry, Dr Huw Edwards, Syr Charles Evans, Lord Flowers a Syr David Hughes.

Ar ôl gorffen dysgu ym 1993 fe ddychwelodd Kyffin i Ymys Môn lle daeth o hyd i fwthyn bach ar lannau Menai lle roedd golygfeydd hyfryd o fynyddoedd Eryri. Ar ddiwrnodau braf roedd Kyffin yn gweld ochrau'r mynydd. Ar ddiwrnodau diflas neu ar ôl eira byddai allan ar y mynydd gyda'i lyfr darlunio.

Yn ystod ei fywyd roedd Kyffin wir eisiau gweld cartre ar gyfer ei gasgliad o gelf o Gymru, rhwng y 18fed ganrif a 1950. Dywedodd '*we are one of the only countries in the world that has not got a gallery for the nation's art*'. Llwyddwyd i godi arian i adeiladu Amgueddfa Hanes Ynys Môn, sef Oriel Ynys Môn.

Derbyniodd yr OBE ym 1982 a chafodd ei urddo yn 1999. Cafodd wobrau o Gymru gan gynnwys medal Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion.

Ni ddiflasodd Kyffin o gwbl ar beintio golygfeydd Cymru. Bu farw yn 88 mlwydd oed gan adael oes o ddarluniau i'w wlad annwyl a'i phobl.

Merched y Wawr Cwm Rhymni

'Canol Mawrth a chanol Medi/Dydd a nos 'run hyd â'i gili" medd yr hen rigwm. Ond i Ferched y Wawr Cwm Rhymni, gwell fyddai dweud 'Dyma ni yng nghanol Medi/'N cael cyfle 'to i weld ein gili!' Mae'r haf yn brysur ddirwyn i ben, y dyddiau'n byrhau, blodau'r ardd yn dechrau colli ffresni, y gwyliau'n atgof a'r ysgolion yn llawn unwaith eto. Ond nid mis o ffarwelio yw mis Medi i Ferched y Wawr Cwm Rhymni – mis yw o ail-afael yn y cymdeithasu a'r cyfarfodydd.

Dechreuodd y flwyddyn newydd gyda chyfarfod anffurfiol yng Nghapel Bethel, Caerffili, ar Fedi'r 21ain, pryd gafodd pawb gyfle i sgwrsio a chael clywed hanes yr haf i gyd. Cafodd yr aelodau gip ar raglen y misoedd nesaf – a chael ambell i syrpreis hefyd, rwy'n meddwl, gan fod rhai gweithgareddau newydd gennym ar ein rhaglen eleni.

Byddwn yn mentro i dir newydd yn ein cyfarfod ym mis Hydref, pan fyddwn yn cwrdd yn stiwdio'r arlunydd Anthony Evans yn Nhreganna, Caerdydd. Mae sawl un o hoelion wyth y genedl wedi dod i'n hannerch dros y blynyddoedd – nawr dyma ni yn mentro allan at un ohonyn nhw! Am y tro cyntaf hefyd y byddwn yn cynnal ein cyfarfod yn ystod y dydd, yn hytrach nag yn y nos. Ein gobaith yw y bydd hynny yn denu rhai aelodau – ac aelodau newydd hefyd, efallai - sydd ddim yn hoffi mynd allan yn yr hwyr.



Felly os hoffech weld gwaith Anthony Evans yn ei gynefin, a siarad gyda'r artist ei hun, dewch gyda ni ar Hydref 19eg. Byddwn yn cwrdd yn ei weithdy am 11.00, ac yn mynd allan am bryd bach sydyn wedyn gyda'n gilydd. Bydd rhai siwr o fanteisio hefyd ar y cyfle i bori yn siopau Caerdydd cyn troi am adre... Os ydych am gael y manylion i gyd, cysylltwch gyda Gaynor Williams ar 07984 197629 neu e-bost - gaynorw555@gmail.com – a chofiwch, bydd angen iddi wybod y nifer mewn da bryd.

Byddwn yn cwrdd yng nghapel Bethel, Caerffili eto ym mis Tachwedd, ac yn croesawu Côr yr Einion i'n difyrru. Dyma noson sy'n siwr o apelio at lawer ohonoch, ac un fydd yn arbennig o addas i unrhyw un ohonoch chi ddysgwyr a hoffai gael blas ar noson gyda Merched y Wawr. Bydd mwy o fanylion am y noson hon yn rhifyn nesaf *CwmNi*.

Gan fod Merched y Wawr ar fin dathlu ei 50fed pen-blwydd, beth am ymuno gyda ni – a dathlu gyda ni – eleni? Fe fydd yn siwr o fod yn flwyddyn gofiadwy yn hanes y mudiad: dyma gyfle i chi fod yn rhan ohoni!

DIOLCHGARWCH 2016

Elwyn Parry

Roedd Ifan Huws, Penrhos, yn nodedig am gwyno ac fe arferai rhai yn y pentref ddweud petasai'n mynd i'r nefoedd buasai'n cwyno yn y fan honno! Pawb yn methu deall ei agwedd gan fod ganddo deulu hoffus, fferm fwy'r ardal ac yn ôl pob sôn y mwya cyfoethog. Pan ofynnwyd iddo os oedd am fynd i'r Cwrdd Diolchgarwch doedd ddim yn siwr gan fod O (pwyntio i fyny) wedi bod yn gybyddlyd hefo'r gwair!! Pam mor hunanol? Pam mor gyndyn o ddiolch am yr holl fendithion a geir o law fawr agored Duw? Mae yna hanesyn am Dduw yn anfon dau angel i'n byd – un gyda basged Gofynion a'r llall gyda basged Diolchiadau. Daeth basged Gofynion yn ôl yn llawn a basged Diolchiadau'n wag.

Mae'r Hydref yn 'swan-song' y flwyddyn, y tymor prydferthaf a chynhaeaf y flwyddyn. Yr adeg yma byddaf yn gweld fod y tir yn estyn Gwasanaeth Cymundebi ddynolryw. Mae'n edrych fel petai gwaed bywyd y tir yn cael ei dywallt ar ein rhan gyda'i gynnyrch. Cymerwch, bwytwch, yfych a byddwch >

ddiolchgar. Meddwl am emyn Dyfed 'Ni flinaist fynd heibio i feiau di-ri / I gofio pechadur na chofia dydi' Diolch eto i Dduw, wedi ein bendithio â thrugaredd a'i dyner ofal drosom. Fe gofiau yr hen John Jones, 93 oed, ar ei liniau yng nghapel Waenfawr erstalwm iawn 'Cawsom oddi wrthyt fendithion di-ri ond maddau inni am ofyn yn ostyngedig iawn am un fendith arall sef CALON i fod yn ddiolchgar amdanynt' Amen ddywedaf i.

Wedi dweud hyn, yn fy mywyd bach fe geisiaf ddiolch yn feunyddiol am ei dyner ofal drosom fel teulu ond yn fy henaint byddaf yn sylweddoli mwy am nid yn unig aeddfedu'r cnwd a'r grawn ond hefyd am 'Enaid a Chorff'! Af yn ôl 40 mlynedd pan oeddwn yn Ysgrifennydd Bethel a'r Gweinidog y Parchusaf Gwilym Morris o annwyl goffawdwriaeth (ac fel y dywedodd cyfaill *'They don't make ministers like that any more'*). Fe gafodd strôc ond diolchodd ei fod yn FYW. Dywedodd wrthyf am weddi a glywodd pan yn efrydwr gan hen weinidog ac ni anghofiaf hyd fy medd. 'Diolch i Ti, Ein Tad Nefol, am iechyd, iechyd corff ac iechyd meddwl a diolch i Ti ein bod yn gwybod pwy ydym a beth ydym' Ofer pob dim heb synnwyr. Hoffaf Eben Fardd

O law fy Nuw fe ddaw'n ddi-feth
Fy mywyd i a'm nerth,
Fy iechyd, synnwyr a phob peth,
Fy moddion i a'm gwerth.

Diolch ein bod yn medru meddwl ynte?

mentercaerffili.cymru
Teithiau Clwb Cerdded / Walking routes



-  Medi 28 - Bedlinog - Cwrdd yn maes parcio yr Ganolfan Dringo CF466RD
-  Hydref 5 - Mynydd Meio - Cwrdd yn maes parcio y 'Rose and Crown' CF834JG
-  Hydref 12 - Glaswelltiroedd Aberbargod—Cwrdd yn y maes parcio yn Pengam wrth Ysgol Lewis i Fechgyn NP123SY
-  Hydref 19 - Maenllwyd - Cwrdd ger Maenllwyd Inn CF833EB
-  Hydref 26 - Parc Penalltau - Cwrdd wrth y cabin (Addas i deuluoedd)
-  Tachwedd 2 - Manmoel - Lleoliad cwrdd i'w chadarnahu

Tachwedd 9 - Cyfarfod cynllunio—Swyddfa Menter Caerffili

Suite 1, Parc St Margaret's, Aberbargod, CF819FW

07835877612 (ar y dydd) morganroberts@mentercaerffili.cymru




Hanes Cwm Ni

6/10/16 Elin Jones
Un o'r adeiladau pwysicaf yn hanes Cymru? Pwll glo Penallta ddoe a heddiw


3/11/16 Gwyn Griffiths
Hanes yr Anthem Genedlaethol

1/12/16 Dr Siân Rhiannon Williams
Idris Davies, Rhymni - perspective personol



Ble?
Clwb Rygbi Penallta, Ystrad Mynach, CF82 7EP
Faint o'r gloch? 7:00yh
Am ragor o fanylion:
helen.young@colegwent.ac.uk
01495 333702

Eisiau dysgu mwy am hanes yr ardal? Dewch i wrando.
Addas ar gyfer dysgwyr lefelau UWCH / HYFEDREDD
Digwyddiad am ddim.



Happy Snappers  **Lluniau Llawen**

Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar

022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Llun y Mis gan Mary Jones (Golygydd Lluniau "Cwmni")



Clwb Llyfrau

"Cwmni"

Tŵr y Lyfrgell NEWYDD

Caerffili

2 o'r gloch

Hydref 3ydd

"Dewch â'ch hoff lyfr"

Tachwedd 7fed

"Rhyd y Gro" Sian Northey

Rhagfyr 5ed

"Saith Cam Iolo" Aled Evans

Manylion: 02920889827

JanPenney@aol.com

Cwrw a chlonc

Dewch i gael diod ac ymarfer eich Cymraeg yng nghwmni pobl gyfeillgar. Croeso cynnes i Gymry Cymraeg a dysgwyr.

Why not come along, enjoy a drink and practise your Welsh at the same time with a friendly group? Warm welcome to Welsh speakers and learners.

19eg Medi / 19th September
24ain Hydref / 24th October
21ain Tachwedd / 21st November

Kings Arms, Y Fenni
Kings Arms, Abergavenny

19.00-21.00

